Y ferch amryddawn

(dyfalbarhad / gofal / amrywiaeth bywyd)

Ydych chi'n cofio Dr Rachael ar *Pobol y Cwm* neu Jini Owen yn ffilm *Hedd Wyn*? Yr un actores oedd yn chwarae'r ddau gymeriad, sef Judith Humphreys. Mae Judith wedi crwydro tipyn ar hyd a lled Gogledd Cymru, o'r Wyddgrug i Langefni, Dolgellau i Dreffynnon, heb sôn am ganolbarth Ffrainc a phellafoedd India. Y rheswm am y teithio yng Ngogledd Cymru oedd bod ei thad yn gweithio yn y banc ac felly'n cael ei symud o le i le fel roedd y banc yn mynnu, ond pam y teithio i Ffrainc ac India tybed?

O'r cychwyn cyntaf dylanwadodd y capel yn drwm arni gyda phobl fel y Parchedig Eirian Davies a'i wraig Jennie Eirian, ynghyd â'i hathrawes Ysgol Sul, Eirlys Gruffydd, yn symbyliad ac yn ysgogiad cyson iddi. Yn ystod ei chyfnod ym Mhrifysgol Loughborough cafodd gyfle i fynd i ganolfan grefyddol Taizé. Ymwelodd â'r ganolfan yn Taizé bedair gwaith a phob tro yn cael "profiadau trawiadol a finnau ddim ond yn 17 oed, yn cyfarfod â phobl ifanc o'r 'tu ôl i'r llen haearn' a sylweddoli gymaint oedd yn gyffredin rhyngom."

I Judith, roedd profiadau Taizé yn brofiadau ysbrydol oedd yn mynd i aros efo hi weddill ei hoes. Y peth pwysicaf iddi oedd yr addoliad syml, dwys oedd yn ganolbwynt i'r holl weithgarwch.

Naw mlynedd ar ôl ei phrofiad cyntaf yn Taizé penderfynodd fynd i India. Pam India, tybed? Roedd ganddi gysylltiadau teuluol yno. Bu ei mam yn gweithio yno gyda'r Groes Goch ar ôl yr Ail Ryfel Byd ac yno hefyd y bu ei thad yn trin radar a fu'n gymorth i arwain awyrennau gyda chyn-garcharorion rhyfel yn dychwelyd o'r Dwyrain Pell i Brydain ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Pan oedd Judith yn blentyn byddai'n arfer clywed yr hanesion am y wlad ac o weld y ffotograffau cododd awydd ynddi hithau i ddilyn ei rhieni i bellafoedd India.

Daeth cyfle, a hithau'n 26 oed, i fynd i weithio i'r 'Sacred Heart Leprosy Centre' yn Tamil Nadu yn ne India. Yn yr ysbyty hon i wahangleifion, lleianod sy'n gofalu a gweini ar y cleifion, oddeutu 700 ohonyn nhw. Yn ôl pob tebyg bacteria sy'n achosi'r gwahanglwyf a hwnnw'n bodoli lle mae diffyg maeth a diffyg glendid. Mae'r salwch yma'n dychryn pobl ac yn eu gwneud yn ddigalon ond mae modd ei wella gyda chyffuriau erbyn heddiw. Yn

ôl Judith, “Roedd bod yn India yn brofiad dwys iawn i mi, yn brofiad anodd ond eto’n un sy’n eich cyfoethogi.” Mae dod wyneb yn wyneb â thlodi ac annhegwch sydd mor amlwg yn brofiad dwys, ond hefyd, ochr yn ochr â hynny, wrth weithio yn yr ysbyty, gwelir gobaith, cariad a thynerwch mawr. Dywedodd un o’r chwiorydd wrthi, er eu bod ynghanol y tristwch, eu bod “yn ymwybodol o agosatrwydd a nerth Iesu Grist” yn eu cynorthwyo.

Bellach mae Judith a’i theulu yn byw ym Mhen-y-groes, yn Nyffryn Nantlle, ac yn dal i fod yn brysur tu hwnt, yn fam (llawn amser), yn dal i actio a gwneud gwaith gwirfoddol gyda Chymorth Cristnogol. Ar y Sul mae’n helpu gyda’r plant yn yr Ysgol Sul a hefyd yn trefnu stondin masnach deg yn y capel. Ei nod, o hyd, yw chwarae ei rhan i greu byd gwell, a rhan bwysig o hynny, yn ôl Judith, yw caru cymydog.

Adnod: “Dadlau o blaid y mud, a thros achos yr holl rai diobaith.” Diarhebion 31:8

Gweddi: O Dduw, pan fydda i’n gwangalonni helpa fi i feddwl am ymdrechion pobl fel Judith a’i thebyg. Amen.

Trafod:

- Sut fyddech chi’n mynd ati i ddisgrifio cymeriad Judith?
- Pa mor bwysig ydi cael amrywiaeth o ddiddordebau?

JUDITH HUMPHREYS